

Cenn@d

AWST 31 2022

YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU

RHIF 79

Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Salem, Canton, Caerdydd,
ac yn rhithiol: 5-7 Medi 2022

'Pa sawl torth sydd gennych? Ewch i edrych.'



Braint i mi yw cael eich croesawu i'r Gymanfa Gyffredinol eleni, a hynny am y tro cyntaf fel Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyfundeb. Hoffwn gydnabod ein diolch i staff y Gymanfa sydd wedi gweithio mor ddiflino a ffyddlon dros y flwyddyn a aeth heibio. Mae ein diolch am baratoi adroddiad y Gymanfa yn ofalus, yn gynhwysfawr ac yn drylwyr iawn i'm rhagflaenydd, y Parch Meirion Morris. Edrychwn ymlaen, bawn Llun ar ddechrau'r Gymanfa, at ddiolch iddo fel Cyfundeb am ei wasanaeth diflino i ni fel Ysgrifennydd Cyffredinol am dros ddeng mlynedd. Pleser fydd cymryd y cyfle ar lawr y Gymanfa i wneud hyn.

Mabwysiadodd ein Cymanfa Gyffredinol bolisi amgylcheddol ar ein cyfer fel Cyfundeb yn 2021. Hefyd, pleidleisiodd y Gymdeithasfa yn y tair talaith yn unfrydol dros gynnal pob cyfarfod un ai 'mewn person' neu'n rhithiol. O ganlyniad, bydd y Gymanfa Gyffredinol eleni'n cyfarfod yng Nghapel Salem, Caerdydd, a bydd modd ymuno trwy gyswllt rhithiol.

Bydd cynrychiolwyr yn derbyn y dolenni priodol i fedru ymuno yn y trafodaethau mewn da bryd. Yn ychwanegol, mae'n bosibl i bob gweinidog a blaenor yn y Cyfundeb wneud cais i'r swyddfa am gopi o'r papurau a'r dolenni Zoom i'r cyfarfodydd busnes.

Braf fydd cael ein croesawu yng Nghapel Salem, Canton, lle mae ein Llywydd, y Parch. Evan Morgan, yn gweinidogaethu. Thema ein Llywydd ar gyfer ei dymor yw: 'Pa sawl torth sydd gennych? Ewch i edrych' (Marc 6:38).

Estynnwn groeso cynnes i bawb i'n cyfarfodydd cyhoeddus, i rannu gyda ni yng nghyfoeth ein darpariaeth eleni.

Yn ystod y Gymanfa Gyffredinol byddwn yn derbyn adroddiad interim ar ein hapêl Hadau Gobaith. Mae'r apêl yn arbennig o amserol, yn canolbwyntio ar yr argyfwng

hinsawdd, Teimlir effeithiau newid hinsawdd ar hyd a lled y byd, a hyd yn oed yma yng Nghymru wrth i ni glywed am waharddiad ar ddefnyddio pibellau dŵr mewn mannau am y tro cyntaf ers 1989 – mae'r neges a'r effaith yn glir. Mae a wnelo ein hapêl ni â Chyfiawnder Hinsawdd, sy'n her enfawr i gymunedau tlotaf ein byd. Clywsom yn ystod yr wythnosau diwethaf yma fel y mae gwledydd Dwyrain Affrica yn dioddef y sychder gwaethaf mewn 40 mlynedd, a hynny wedi'i waethgu gan yr argyfwng bywyd byd-eang a ddaeth yn sgil y rhyfel yn Wcrâin. Gyda'n gilydd, felly, rydym ninnau'n cael yr aruthrol faint drwy'r apêl hon i gydsefyll â'n chwiorydd a'n brodyr yn Kenya a Honduras, ac i wneud hynny dros urddas, dros gydraddoldeb a thros gyfiawnder.

Edrychwn ymlaen at glywed sut mae ein tim Plant ac Ieuencid wedi ailgychwyn y gwaith yn dilyn cyfnod anodd y cyfnodau clo. Byddwn yn clywed am y fendith a brofwyd dros yr haf wrth i gyrtsiau barhau i gael eu cynnal yn ein canolfan yng Ngholeg y Bala.

Rydym yn byw mewn byd ac amseroedd heriol. Mae hanes 'porthi'r pum mil' yn dangos yn glir i ni fod ein Harglwydd Iesu'n derbyn yr ychydig sydd gennym, a phan ydym yn cyflwyno'r ychydig hwnnw yn ddiolchgar ac yn weddigar iddo, y mae yntau'n gallu ei fendithio y tu hwnt i'n dychymyg a'n disgwyliadau oherwydd ei ras a'i aruthrol gariad tuag atom.

Erfyniwn am eich gweddïau dros ein Cymanfa eleni, dros ein Llywydd, dros y gymdeithas, a thros ein trafodaethau. Gweddïwch gyda ni y byddwn yn pwyso ar ein Harglwydd bendigedig, ac y byddwn yn dod i benderfyniadau cyfiawn a chywir fel eglwys er gogoniant yn unig iddo Ef.

Nan Powell-Davies
Ysgrifennydd Cyffredinol



Eglwys
Bresbyteraidd
Cymru

**CYFARFODYDD CYHOEDDUS /
RHITHIOL
Y GYMANFA GYFFREDINOL
5-7 Medi, 2022
Capel Salem Treganna, Caerdydd
ac yn rhithiol**

**Nos Lun, 5 Medi
7:00pm**

Gwasanaeth Cymun a Choffâd
I Bregethu: Parchg Gwenda Richards,
BAdd, BD, Caernarfon

**Dydd Mawrth, 6 Medi
11.45am**

Y Ddarlith Davies
Darlithydd: Parchg Ddr Diane Stirling,
BSc, MA, Y Trallwng
Testun:
'Climate Change: Hand of God or
Hand of Man?'

**Nos Fawrth, 6 Medi
7:00pm**

Oedfa dan arweiniad y Llywydd
Y Parchg Evan Morgan, BD, Caerdydd

**Dydd Mercher, 7 Medi
11:45am**

Darlith y Gymdeithas Hanes
Darlithydd: Parchg Dafydd Andrew
Jones, MA, Caerdydd
Testun:
'Diolch a llawenydd anghyffredin':
Ysbyty Shillong 1913-1927

Yr holl gyfarfodydd i'w cynnal
yn ddwyieithog ac yn rhithiol
heblaw am y ddarlith Davies,
a draddodir yn Saesneg

Am fanylion ymuno â'r cyfarfodydd
hyn yn rhithiol cysylltwch gyda
swyddfa EBC— 02920 627465 neu
swyddfa.office@ebcpcw.cymru

**Gwinllan a Roddwyd: Hanes y Cylch
Catholig, gan Ioan Roberts
Tudalen 2**

**Bedyddio, bendithio a barbeciw!
Tudalen 5**

**Fydd a Diwylliant
Chwarae mig â duw
Tudalen 7**

Gwinllan a Roddwyd: Hanes y Cylch Catholig, gan Ioan Roberts

(Y Lolfa; ISBN: 9781800991101; pris £12.99)

Priodas Gatholig gwbl breifat, heb yr un aelod o'u teuluoedd yno, gafodd Saunders Lewis a'i wraig, Margaret Gilcriest, ac nid oedd achlysur priodas Catherine a J. E. Daniel yn achlysur hapus, yn ôl y sôn. Cynhaliwyd y briodas honno yn gynnar ar fore Mawrth heb fod yr eglwys wedi ei haddurno o gwbl ac 'roedd mamau'r pâr priodasol yn eu dagrau'n ceisio cysuro'i gilydd, y naill am fod ei merch wedi ymuno â'r Eglwys Gatholig a'r llall am fod ei mab wedi priodi Pabyddes'.

Gwrth-Gatholigiaeth

Mae'r hanesion rhyfeddol yna'n dangos pa mor wrth-Gatholig, ar y cyfan, mae'r traddodiad Cristnogol Cymraeg wedi bod, ac o ganlyniad cyn lleied y gwyddom amdani. Cymaint yw goruchafiaeth Protestaniaeth yng Nghymru nes bod y ffydd Gatholig bron yn cael ei gweld fel crefydd hollol wahanol. Pleser o'r mwyaf felly oedd canfod cyfrol y diweddar Ioan


Roberts, *Gwinllan a Roddwyd: Hanes y Cylch Catholig*, yn yr Eisteddfod eleni. Cyhoeddwyd y gyfrol y llynedd gan y Lolfa ond am ryw reswm dim ond eleni y daeth i fy sylw i. Mae'n gyfrol boblogaidd a darllenadwy am ran fechan, ond rhan bwysig, o hanes diweddar y ffydd Gristnogol yng Nghymru. Mae hefyd yn rhan bwysig o hanes cenedlaetholdeb gan fod stori llawer o'r prif gymeriadau, fel Saunders Lewis a Catherine a J. E. Daniel, yn bobl yr oedd eu ffydd a'u cenedlaetholdeb wedi eu hasio mewn ffordd na ellir eu gwahanu.

Nid Catholig ydw i, ond Protestant o'r iawn ryw, un o blant y traddodiad Efengylaidd – un a fagwyd ym mhethau'r Mudiad Efengylaidd a'm codi mewn Eglwys Efengylaidd cyn i mi wedyn dderbyn galwad at y Bedyddwyr. Nid annheg fyddai dweud fod yna bolemig gwrth-Gatholig wedi fy amgylchynu yn tyfu i fyny yn y Mudiad Efengylaidd, oherwydd mae'n ffaith hanesyddol fod polemig gwrth-Gatholig wedi nodweddu'r cyfan, bron, o'r traddodiad Protestannaidd Cymreig. Ond wrth ddarllen y llyfr yma, cefais f'atgoffa fod yna dipyn o dir cyffredin rhyngom a'n brodyr a'n chwiorydd Catholig, er bod yna wahaniaethau mawr a sylfaenol hefyd. Mewn gwirionedd mae yna lawer mwy o dir cyffredin nag y mae rhywun yn sylweddoli ... neu o leiaf eisiau ei gydnabod!

Ymateb i ryddfrydiaeth ddiwinyddol

Os dechreuwn gyda'r rhesymau a barodd i rai o aelodau cynharaf y Cylch Catholig droi o ffydd Brotestannaidd at Gatholigiaeth. Yr hyn sy'n ddiddorol yw bod eu rhesymau'n rhyfeddol o debyg i'r symbyliad, maes o law, i Efengylwyr droi eu hymdrechion at waith y Mudiad Efengylaidd ar ôl cael eu dadrithio gyda bywyd yr enwadau anghydfurfiol. Un o'r ddau brif reswm oedd rhemp rhyddfrydiaeth ddiwinyddol, oedd â thuedd i wadu athrawiaethau clasurol fel duwioldeb Crist. Yr ail reswm oedd y canfyddiad fod yna ddiffyg ysbrydolrwydd i'w weld yng nghapel ac eglwysi Cymru o ganlyniad i ddylanwad materoliaeth a'r pwyslais ar y cymdeithasol.

Dywedodd Catherine Daniel mai un o'r prif resymau a'i harweiniodd at dröedigaeth Gatholig oedd iddi fethu canfod



'unrhyw athrawiaeth gyson am yr Arglwydd Iesu' ymhlith y traddodiad anghydfurfiol. Beirniadaeth debyg a glywir yn aml gan Efengylwyr. Prif reswm Saunders Lewis oedd diffyg ysbrydolrwydd a'r ymdeimlad o alwad at addoliad 'pur' yr offeren Gatholig. Er nad oes i'r sacrament rôl bwysig i lawer o Efengylwyr, mae yna naratif o fod eisiau 'ffoi' oddi wrth ddiffyg ysbrydolrwydd yr enwadau i ffurf uwch neu fwy 'pur' o Gristnogaeth. Ond yng ngrym y bregeth eneiniedig a chynhesrwydd y cyfarfod gweddi y canfyddir purdeb addoliad i'r Efengylwyr, nid yn yr offeren Gatholig.

Tröedigaeth

Thema arall a dynnodd fy sylw oedd y syniad o 'dröedigaeth'. Mae'r cysyniad o dröedigaeth yn ganolog i'r traddodiad Catholig a'r traddodiad efengylaidd fel ei gilydd. Ond yr hyn sy'n ddiddorol yw bod y term yn cael ei ddefnyddio yn llyfr Ioan Roberts i ddisgrifio'r hyn sy'n digwydd pan

fydd rhywun fel Saunders Lewis neu Harri Pritchard Jones yn troi o'r ffydd Brotestannaidd ac yn ymuno â'r Eglwys Gatholig; hynny yw, tröedigaeth eglwysig neu newid ffydd, yn hytrach na dod i greu. Ond yn y traddodiad efengylaidd mae'r syniad o dröedigaeth yn ymwneud yn bennaf â ffydd bersonol ac ailedigaeth: hynny yw, rhywbeth rhwng pobl a Duw, heb fod ymuno ag eglwys o reidrwydd yn rhan o'r peth. Dyma sydd tu ôl i'r mantra: 'nid wyf yn grefyddol; dwi'n berson â pherthynas bersonol a Christ', a pham mae rhai Efengylwyr (nid pawb!) yn meddwl y gallwch chi fod yn Gristion heb berthyn i eglwys. Erbyn hyn rwy'n credu fod y traddodiad efengylaidd wedi datblygu diwinyddiaeth well ynghylch eglwysyddiaeth, a bod 'dod yn Gristion' yn ymwneud lawn cymaint â dod i berthyn i'r eglwys, pobl Dduw, ag ydyw ynglŷn â meddu ar ffydd bersonol.

Ennill Cymru i Grist

Yn y bôn, mudiad cenhadol oedd y Cylch Catholig i ddechrau. Criw dethol oedd wedi derbyn galwad i droi'r Cymry yn ôl at yr 'hen ffydd', y ffydd Gatholig. Yn yr un modd, cenhadaeth oedd – ac yw – thema fawr Efengylwyr, ac mae'r naratif 'Ennill Cymru i Grist' wedi bod yn bwysig i'r Mudiad Efengylaidd erioed. Ond i'r Efengylwyr, wrth gwrs, galw Cymru yn ôl at Gristnogaeth Awstinaidd, Brotestannaidd, yw'r weledigaeth. Mae'r ddau draddodiad eisiau galw'r Cymry yn ôl at Gristnogaeth 'bur', er bod eu syniad o beth yw'r Gristnogaeth honno yn bur wahanol! 'Restorationism' fyddai un ffordd o ddeall gweledigaeth y Cylch Catholig a'r Mudiad Efengylaidd fel ei gilydd.

Roedd hi'n ddiddorol darllen fod gweithgareddau cyhoeddus y Cylch Catholig wedi canolbwyntio ar dair prif elfen, sef: i) encil flynyddol; ii) cyhoeddi cylchgronau, a iii) presenoldeb cenhadol ar faes yr Eisteddfod. Er bod gweithgareddau'r Mudiad Efengylaidd yn llawer mwy eang na hynny, mae'n ddiddorol nodi mai dyna, yn gyffredinol, ydy tair gwedd fwyaf cyhoeddus gwaith y Mudiad Efengylaidd ymhlith y Cymry Cymraeg hefyd: trefnu cynhadledd flynyddol yn Aberystwyth, cyhoeddi'r *Cylchgrawn Efengylaidd*, a chynnal stondin at ddiben efengylu ar faes yr Eisteddfod.

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Gwinllan a Roddwyd: Hanes y Cylch Catholig, gan Ioan Roberts

(parhad o dudalen 1)

Crefydd y werin?

Fodd bynnag, er y tebygrwydd, mae yna wahaniaethau sylfaenol rhwng y Cylch Catholig a'r Mudiad Efengylaidd, a mwy na dim ond gwahaniaethau diwinyddol hefyd. Yn y degawdau cynnar roedd y Cylch Catholig yn gymharol uchel-ael a hyd yn oed yn 'aristocrataidd', yn ôl Ioan Roberts, yn bennaf oherwydd dylanwad un dyn, sef Saunders Lewis. Maes o law fe ddaeth teulu ystad Garthewin yn ddylanwad mawr hefyd, ac mae'n amlwg fod mwynhau lletygarwch a nawdd teulu boneddigaidd yn fwy na derbyniol gan Saunders. Ond symudiad gwerinol fu'r Mudiad Efengylaidd o'r dechrau, gyda rhai o'r arweinwyr mwyaf dylanwadol, fel fy nhad-cu fy hun, yn blant i lowyr a chwarelwyr, a chynheswydd gwerinol yn eu Cristnogaeth anghydfurfiol ddiwygiedig a diwygiadol. Nid hanesion am fwynhau lletygarwch ar ystadau boneddigaidd a nodweddiadol y Mudiad Efengylaidd, ond yn hytrach lletygarwch teuluoedd fferm fynydd Bryn Uchaf, Llanymawddwy, neu gartref gwerin Bryn Powys yng Nghaernarfon.

Her heddiw

Ond beth am y sefyllfa heddiw wrth edrych yn ôl ar bron i ganrif o hanes y Cylch Catholig a'r Mudiad Efengylaidd? Er y duedd wrth-Gatholig ymhlith Efengylwyr, mae'n bwysig cydnabod fod genesis tröedigaeth Gatholig pobl fel Saunders a gweld sefydlu'r Mudiad Efengylaidd maes o law yn perthyn i'r un stori. Fel y mae pobl eraill wedi dangos, mae'r ddau yn ymateb ceidwadol i ryddfrydiaeth oedd wedi colli calon Cristnogaeth: un yn ymateb Catholig i'r argyfwng ffydd, a'r llall yn ymateb Protestannaidd, ond y ddau'n apelio at uniongredded. Ar ryw wedd mae'n annheg cymharu'r Cylch a'r Mudiad, ond eto mae'n ddiddorol nodi bod eu calon a'u sêl genhadol yn ddigon tebyg, sef eu dyhead i alw Cymru yn ôl at yr 'hen ffydd'.

Ond beth yn union yw'r 'hen ffydd' honno? Ni fyddai cyfeillion y Cylch Catholig yn gyfforddus gydag agweddau lsel-eglwysig y Piwritaniaid yn yr un modd ag na fyddai'r Efengylwyr yn gyfforddus â Christnogaeth Gatholig Cymru'r Oesoedd Canol. Ond tybed, o fynd yn bellach yn ôl eto, a allwn ddarganfod undod o gwmpas ein gwreiddiau yn yr eglwys Geltaidd ... os oedd yna'r fath beth yn bod?

Gwinllan a roddwyd i'm gofal yw Cymru fy ngwlad,
i'w thraddodi i'm plant, ac i blant fy mhiant,
yn dreftadaeth dragwyddol.
Ac wele'r moch yn rhuthro arni, i'w maeddu.
Minnau yn awr, galwaf ar fy nghyfeillion,
cyffredin ac ysgolhaig,
Deuwch ataf i'r adwy,
Sefwch gyda mi yn y bwlch,
fel y cadwer i'r oesoedd a ddel y glendid a fu.

(*Buchedd Garmon*, Saunders Lewis)

**Nodyn i esbonio un peth: Mae 'Mudiad Efengylaidd Cymru' yn elusen sy'n cefnogi Cristnogion o duedd efengylaidd sy'n perthyn i unrhyw eglwys/capel, eglwysi 'Efengylaidd' neu eglwysi/capeli sy'n perthyn i enwadau fel Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ayb. Nid enwad yw'r 'Mudiad Efengylaidd'. Yn yr un modd nid yw pob Cristion neu eglwys/capel sy'n arddel diwinyddiaeth efengylaidd yn ymlynu wrth y 'Mudiad Efengylaidd'. Yn yr erthygl hon rwy'n siarad am 'Efengylwyr' yn gyffredinol, ac weithiau'n siarad am y 'Mudiad Efengylaidd' (Mudiad Efengylaidd Cymru) yn benodol.

Rhys Llwyd

'Trysorau Newydd a Hen'

Fy hoff emyn

Yr wythnos hon, Alun Morton Thomas sy'n dewis ei hoff emyn

Emyn 590 – 'Ysbryd Sanctaidd, dyro'r golau'

Yn yr emyn hwn mae Dyfed yn ein tywys i feddwl am bwrpas y darlleniad a'r bregeth mewn addoliad cyhoeddus. Fe ellir gweld bod pob pennill yn ymwneud ag agwedd arbennig: datguddiad, disgwyliadau a chyfarfyddiad.



Datguddiad

Ysbryd Sanctaidd, dyro'r golau
ar dy eiriau di dy hun;
agor inni'r Ysgrythurau,
dangos inni Geidwad dyn.

Yn y pennill cyntaf mae'r emynydd yn sôn am le sylfaenol y Beibl er mwyn i ni weld 'Ceidwad dyn', yr Arglwydd Iesu. Mae yna ddatguddiad ('eglwys') o Dduw sydd i'w ganfod yn y greadigaeth. Pwy all ond rhyfeddu at fawredd y nefoedd wrth edrych ar luniau fel y rhai a rannwyd gan deilegop James Webb yn ddiweddar? Ond mae'r pennill uchod yn hoelio ein sylw ar y datguddiad arbennig hwnnw o Dduw yn ei Air, sef y Beibl. Mae angen cymorth yr Ysbryd Glân wrth ddeall y Beibl a gweld Iesu Grist. Fel mae Paul yn ysgrifennu at y Corinthiaid: "Nid yw'r rhai anianol yn derbyn pethau Ysbryd Duw, oherwydd ffolineb ydynt iddynt hwy, ac ni allant eu hamgyffred, gan mai mewn modd ysbrydol y maent yn cael eu barnu." (1 Corinthiaid 2:14)

Disgwyliadau

O sancteiddia'n myfyrdodau
yn dy wirioneddau byw;
crea ynom ddymuniadau
am drysorau meddwl Duw.

Beth yw ein disgwyliadau ni wrth i ni gyfarfod ar y Sul? Beth rydym yn ei geisio? Ceir gweddi yn yr ail bennill ar i Dduw greu ynom ddymuniadau a dyheadau amdano Ef ei hun. Rydym yn gyfarwydd â'r dywediad 'Duw a digon'. Ond yn aml credwn rywbeth arall, fod rhywun neu rywbeth arall yn gallu diwallu ein gobeithion dyfnaf ni. Nid felly y mae hi i'r Salmiudd, sy'n datgan: "digonir fi o weld Dy wedd" (Salm 17:15).

Cyfarfyddiad

Gweld yr Iesu, dyna ddigon
ar y ffordd i enaid tlawd;
dyma gyfaill bery'n ffyddlon,
ac a lŷn yn well na brawd.

Yn y pennill olaf, mae'r emynydd yn ein hatgoffa ni fod gwir addoliad a phregethu yn ein harwain at gyfarfyddiad gydag Iesu Grist. Ef yw'r Un sy'n glynu'n well na brawd. Ef yw'r un sy'n gallu cydymdeimlo â'n gwendidau, rhoi maddeuant a'n hadnewyddu. Trwyddo Ef cawn brofi gwir gymundeb â Duw fel ein Tad Nefol. Felly, y cwestiwn i ni ei ofyn wrth ymadael o wasanaeth yw: a wyf wedi 'gweld yr Iesu' dros of fy hunan?

Undeb Bedyddwyr Cymru – Araith y Llywydd, D. Densil Morgan 24 Mehefin 2022

‘Y rhwymau sy’n ein clymu ni ynghyd’ (parhad)

2. Yr Arglwydd sy’n ein clymu ni ynghyd

Yr hyn sy’n dod gyntaf, bob amser ac ar bob achlysur, yw'r Arglwydd Iesu Grist.

Pwy yw'r Iesu hwn? Yr un sy'n Arglwydd a Gwaredwr – *i ni*. Nid proffwyd, nid dyn da, nid yr esiampl fwyaf perffaith o'r hyn sy'n ddyrchafol a rhinweddol yn y natur ddynol ond 'Duw a amlygwyd yn y cnawd'. Ar hyd y canrifoedd mae'r Eglwys wedi mynnu fod duwdod yn perthyn i'r Iesu hwn. Ef, yn ôl Efengyl Ioan, yw'r 'Gair a ddaeth yn gnawd a phreswyllo yn ein plith yn llawn gras a gwirionedd'. Ac ef, y Duw-ddyn, Crist yr ymgnawdoliad yw'r Arglwydd sy'n ein clymu ni, Fedyddwyr Cymru, ynghyd.

Ble down ni o hyd i awdurdod yn ein crefydd? Nid mewn llyfr noeth, nid yn llythrennau y Beibl fel y cyfryw, ond mewn Person: y Person y mae'r Beibl yn dwyn ei dystiolaeth unigryw iddo, proffwyd i'r Hen Destament yn cyfeirio ymlaen ato ac apostolion y Testament Newydd yn tystio i'w ddyfodiad, ei weithredoedd, ei natur ddbibechod, ei aberth a'i atgyfodiad.

Yna, mae'r Datganiad yn symud ymlaen at yr eglwys: 'mae gan bob eglwys ryddid i ddehongli ac i weinyddu ei gyfreithiau dan arweiniad yr Ysbryd Glân'. I ni, yr eglwys yw'r eglwys leol, cymdeithas y saint, brodyr a chwiorydd yng Nghrist sy'n dod ynghyd Sul ar ôl Sul i wrando Gair Duw ac i ymgynnull o gwmpas Bwrdd yr Arglwydd. Ac mae'r eglwys honno yn rhydd! All neb oruwchlywodraethu drosti, boed esgob, boed gymanfa, ac yn sicr nid Cyngor yr Undeb! Nid penryddid mo'r rhyddid hwn, ond rhyddid o dan y Gair, sef Iesu Grist ei hun; ac yna daw'r cyfeiriad cyntaf at yr Ysbryd Glân: 'mae gan bob eglwys ryddid i ddehongli ac i weinyddu ei gyfreithiau *dan arweiniad yr Ysbryd Glân*'. Nid dylanwad amheronol, annelwig mo'r Ysbryd Glân, ond trydydd Person y Drindod Sanctaidd, yn deillio oddi wrth y Tad, yn dwyn ei dystiolaeth i'r Mab ac ar waith ynom yn ein harwain, ein sancteiddio ac yn selio cariad Duw yn ein calonnau. Nid yn unig y mae'r Datganiad hwn yn Grist-ganolog, mae'n ddatganiad Trindodaidd yn ogystal.

A minnau wedi bod yn weinidog ers deugain mlynedd, gwn yn iawn fod amrywiaeth eang o safbwyntiau a rhychwant lliwgar o ddehongliadau gwahanol ar gael yn ein heglwys, ac o'm rhan fy hun rwy'n falch o hynny. Hoffwn i ddim perthyn i enwad sy'n disgwyl i bawb feddwl yr un peth ac

ymagweddu yr peth, a lle nad oes rhyddid i'w aelodau fynegi gwahaniaeth barn yn ddiffuant ac yn onest. Ac mae'r Datganiad yn caniatáu'r rhyddid hwnnw i ni. Mae rhai o'r dehongliadau hyn yn adlewyrchu'r cymhlethdod moesol sy'n nodweddu diwylliant y Gymru gyfoes, a sensitifwydd pobl i hynny. Ond cyhyd â'u bod yn ffrwyth ystryriaeth gydwybodol dan arweiniad yr Ysbryd, ni ddylai'r amrywiaeth hon dorri ar draws ein hundod yng Nghrist.

3. Y bedydd sy'n ein clymu ni ynghyd

Wedi dechrau gyda Christ a rhyddid pob eglwys i ddehongli ei ddeddfau dan arweiniad yr Ysbryd Glân, dim ond yn awr y daw'r Datganiad at yr hyn mae llawer yn eu hystyried yn nod amgen ein traddodiad, sef bedydd: y 'weithred o drochi mewn dŵr y sawl sydd wedi datgan edifeirwch ger bron Duw a ffydd yn ein Harglwydd Iesu Grist'.

Beth a barodd i lunwyr y Datganiad osod y cymal hwn yn yr ail safle ac nid ar y dechrau? Ai camsyniad oedd hyn, ynteu fwiad? Hoffwn feddwl fod y peth yn hollol fwiadol ac yn adlewyrchu'r deinamig sydd yn yr efengyl. Crist ei hun sy'n dod gyntaf a dim ond wedyn ein hymateb iddo, ac mae'r ymateb hwnnw'n cael ei ffurfio gan ein hymwneud â'r eglwys y cawsom ein magu ynddi neu y daethom i uniaethu ein hunain â hi wrth ymuno â'i chymdeithas.

Fel y dywedais ar y dechrau, prin y gwyddai crwt amrwd pymtheg oed yng Nghalfaria, Treforys, yng nghanol chwedegau'r ganrif ddiwethaf ddim o'r pethau hyn! Dim ond wedyn, wrth i ddealltwriaeth ehangu, wrth i ffydd dyfu ac wrth i edifeirwch ddwysáu, a hynny yng nghwmni fy nghyd-Gristnogion a ddaeth yn gyfeillion i mi ar y daith, y deuthum i werthfawrogi ystyr y gyffes yr oeddwn wedi ei gwneud gerbron Duw a'm cyd-aelodau, a minnau'n bymtheg oed. Un cam ar y daith yw bedydd: cam allweddol, ie, a cham angenrheidiol, ond nid, yn bendifaddau, y cam olaf. Dyna'r bedydd sy'n ein clymu ynghyd.

4. Y genhadaeth sy'n ein clymu ni ynghyd

Ar un wedd, nid fi yw'r un gorau i sôn am genhadu ac efengylu. Deuthum i sylweddoli flynyddoedd yn ôl mai dawn yr athro a'r dysgawdwr sy gen i ac efallai ddawn y pregethwr a'r bugail, ond nid dawn y cenhadwr a'r efengyllydd. Ond, 'gwna waith efengylwr' (2 Timotheus 4:5),



medd yr Apostol Paul wrth ei gyfaill ifanc Timotheus, ac mae hyn yn rhwymedigaeth arnom i gyd. Efallai fod sawr oes arall ar union eiriad y cymal a rhyw unigolyddiaeth sy'n ddiethr i ni ond mae ei ystyr yn fwy perthnasol i fywyd y Gymru seciwlar, bliwralaidd, ôl-Gristnogol hon nag erioed. Cawn ein galw, felly, i rannu cenhadaeth Duw yn y byd.

Beth yw ystyr hynny yn y Gymru hon? Ein gwaith ni, wrth adael y gynhadledd a dychwelyd at ein hardaloedd, yw perswadio pobl. 'Felly,' medd yr Apostol Paul yn ei Ail Lythyr at y Corinthiaid, 'o wybod beth yw ofn yr Arglwydd, yr ydym yn perswadio pobl' (2 Corinthiaid 5:11). Eu perswadio o beth? O'r ffaith fod Duw yn ei gariad anhraethol wedi dod atom yn ei Fab, nid er mwyn ein barnu, ein condemnio na'n difa, ond er mwyn ein cofleidio, ein codi a chynnig i ni, a phawb arall, fywyd newydd: 'Oherwydd y mae cariad Crist yn ein gorfodi ni, a minnau wedi ein hargyhoeddi o hyn: i un farw dros bawb, ac felly i bawb farw. A hynny i'r byw beidio â byw iddynt eu hunain mwyach, ond i'r un a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd' (2 Corinthiaid 5:14-15). Fel yn y gallwn chwarae ein rhan mewn efengyleiddio'r byd, a dyna hanfod y genhadaeth sydd yn ein clymu ni, Fedyddwyr Cymru, ynghyd:

Felly, os oes neb yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma. Ond gwaith Duw yw'r cyfan ... Felly cenhadon dros Grist ydym ni, fel pe bai Duw yn apelio atoch trwom ni ... cymoder chwi â Duw (2 Corinthiaid 5:17-21).

Yr Arglwydd sy'n ein clymu ni ynghyd; y bedydd sydd yn ein clymu ni ynghyd; y genhadaeth sy'n ein clymu ni ynghyd. Rhodded yr Arglwydd ras i ni beidio â bod yn anufudd i'r alwedigaeth nefol. Amen.

(Gellir darllen yr anerchiad yn llawn ar wefan Undeb Bedyddwyr Cymru: <https://ubc.cymru/pwy-ydyn-ni/adanom-ni/what-we-believe-2/y-rhwymau-syn-ein-clymu-ni-ynghyd/>)

Bedyddio, bendithio a barbeciwr!

Dyna beth oedd mis yng Nghapel Ebeneser, Dyfed! 'Nôl ym mis Gorffennaf fe gawsom fis prysur gyda llawer iawn o ddathliadau arbennig, dechreuadau newydd ac ymwelwyr o fri yn dod i addoli yn ein capel.

Bedyddio

Ar ddiwrnod braf ddechrau'r mis, cawsom oedfa fedydd, bedydd cyntaf y Gweinidog, Sian Elin. Y tri ddaeth ymlaen i gael eu bedyddio oedd Fflur James, Steffan Thomas a Dylan Thomas. Doedd dim amheuaeth nad oedd yna lawenydd ac achos i ddathlu am fod y tri wedi penderfynu cael eu trochi yn y dŵr ac wedyn gael eu derbyn fel aelodau yn Ebeneser.

Roedd yn wir yn ddiwrnod emosiynol i'r Gweinidog am ei bod yn bedyddio'i mab a'i gŵr. Roedd Sian Elin hefyd yn ddiolchgar (ac yn falch!) fod y Parchedig Rhosier Morgan wedi cytuno i fod o gymorth ar y diwrnod.



Bendithio

Y Sul canlynol – diwrnod braf unwaith yn rhagor – roedd yna reswm arall am ddathliad mawr yn Ebeneser wrth i ni ddod at ein gilydd i gyflwyno plentyn i

gael ei fendithio. Roedd Geraint a Becca wedi dod â Ffion Cadi o flaen y gynulleidfa a'u teuluoedd i gyflwyno, diolch i Dduw a gofyn am ei fendith ar yr un fach. Cawsom hanes arch Noa a'r enfys gan y Gweinidog – addewid Duw o ddechrau newydd.



Barbeciwr

Ddiwedd mis Gorffennaf fe ddaeth yna fws i Ebeneser o Ofalaeth Bedyddwyr Gogledd Teifi. Roedd yr ymwelwyr wedi dod o ardal Llanbedr Pont Steffan i ymuno â ni yn yr oedfa a hefyd yn y Parti Haf oedd yn dilyn. Er gwaetha'r glaw, fe wnaeth pawb fwynhau'r cymdeithasu yn y festri, a braf oedd croesawu'r Parchedig Ddr Densil Morgan a'r ofalaeth i'r capel. Roedd Mr Morgan yn allweddol yn hyfforddiant y Gweinidog, Sian Elin, ac fe ddiolchodd iddo'n ddiffuant am yr holl gymorth yr oedd wedi'i roi iddi dros y blynyddoedd diwethaf. Rhannodd Sian Elin neges am y teimlad y mae llawer ohonom yn ei gael yn aml, sef nad ydyn ni'n ddigon da. Ond drwy ymddiried yn ein Harglwydd rydym yn gwybod nad ydi hynny ddim o bwys, achos mae Duw yn ein caru bob amser.

Sian Elin Thomas

Hoffai Sian Elin gymryd y cyfle i ddiolch i'r Ofalaeth am bob cymorth mae wedi'i dderbyn yn ystod ei blwyddyn gyntaf oll fel Gweinidog. Does dim amheuaeth bod yna llawer iawn wedi digwydd, bod yna sawl deigr yn a llawer iawn o chwerthin wedi bod. Ond drwy gymorth Duw rydym yn edrych ymlaen at y dyfodol drwy weithio fel tîm i gryfhau achos Iesu Grist yn ein hardal.



Adlais yng Ngholeg y Bala

Rydym yn hapus iawn i allu rhannu gwybodaeth am benwythnos 'Adlais' a fydd yn cael ei gynnal yng Ngholeg y Bala, 9-10 Medi. Bydd yn benwythnos o fawl a chyfansoddi yng nghwmni Cadi Gwyn a Meilyr Geraint a'r band.

Nos Wener: Noson o Fawl a Chymdeithasu Bore Sadwrn: Seminar am addoliad a chalon Adlais dros 'addoliad cyfoes Cymraeg'

Prynhawn Sadwrn: Gweithdy cyfansoddi caneuon

Nos Sadwrn: Y cyfle cyntaf i glywed caneuon newydd Adlais yn fyw, a chyfle i foli gyda'n gilydd.

Beth bynnag eich dawn, os ydi addoliad ar eich calon mewn unrhyw ffordd, gwnewch

yn siŵr eich bod yn ymuno â ni, naill am y penwythnos cyfan neu'r Sadwrn yn unig. Y gost fydd £40 am y penwythnos; bydd hyn yn cynnwys gwely a brecwast nos Wener a'r holl brydau bwyd, neu £25 am y Sadwrn yn unig ac yn cynnwys cinio a swper. Bydd modd aros nos Sadwrn hefyd am gost o £20.

Archebwch eich lle heddiw drwy lenwi'r ffurflen yma: <https://forms.gle/ZKm4ALcXQoLNkw2E6>.

Mae yna groeso i chi ein ffonio neu e-bostio os oes gennych unrhyw gwestiwn.

Edrychwn ymlaen yn fawr at eich croesawu yma atom ni.

O'r Beibl: 13

Y Gwynfydau (6)

'Gwyn eu byd y rhai trugarog,
oherwydd cânt hwy dderbyn trugaredd.'
(Mathew 5:7)

Yr wythnos hon, rydym yn cyrraedd y pumed gwynfyd, sydd i'w gael yn Mathew 5:7: 'Gwyn eu byd y rhai trugarog'. Yn yr adnod hon, mae Iesu'n dweud fod y 'rhai trugarog' yn wyn eu byd, hynny yw, wedi'u bendithio gan Dduw. Ond pwy yw'r rhai 'trugarog'? Beth mae'n ei olygu i fod yn 'drugarog'?

Yn y Testament Newydd, mae'r gair 'trugarog' yn gysylltiedig â'r gair 'maddeuant'. Bod yn drugarog felly yw bod yn barod i faddau. Mae'n golygu peidio â rhuthro i weld bai ar rywun, ond eu trin gyda thosturi. Yn wir, yn y Beibl, trugaredd yw'r gwrthwyneb i ddialedd. Os ydym eisiau esiampl o beth mae'n ei olygu i fod yn drugarog, cawn un perffaith yn yr Arglwydd Iesu, Mab Duw.


Nid yw'n syndod mai dyma'r ffordd mae Cristnogion i drin eraill. Wedi'r cyfan, fel pobl Dduw, mae Duw wedi ein trin ni yn ôl ei 'drugaredd'. Er ein bod ni'n bechaduriaid, trugarhaodd Duw wrthym. Er ein bod ni'n haeddu ei farn a'i ddieter am ein gwrthryfel gwarthus yn ei erbyn, fe wnaeth Duw ein caru gan wneud ffordd i faddau ein pechodau ni drwy aberth Iesu ar y groes.

Gan fod Duw wedi ein trin ni â'r fath drugaredd, rydym ni i gael yr un agwedd drugarog tuag at eraill. Rydym i fod yn barod i faddau i eraill ac yn llawn tosturi tuag at y bobl sydd o'n cwmpas – yn y gwaith, gyda'n ffrindiau, yn ein heglwysi, yn ein cartrefi. Fel y dywedodd yr Apostol Paul yn Colosiaid 3:13: 'Maddeuwch chi i bobl eraill yn union fel mae'r Arglwydd wedi maddau i chi.'

Pwy yw'r bobl hynny y gallem fod yn drugarog tuag atyn nhw heddiw? Pwy yw'r bobl hynny y gallwn faddau iddyn nhw heddiw? Mae bod yn drugarog yn beth mor radical. Yn aml mae'r byd yn creu'r argraff y dylem drin eraill fel maen nhw wedi ein trin ni. Os ydyn nhw wedi bod yn gas gyda ni, rydym ni i fod yn gas gyda nhw. Os ydyn nhw wedi ein hanwybyddu ni, rydym ni i'w hanwybyddu nhw. Er mai dyma'n gyson yw agwedd y byd, nid dyma yw agwedd y Cristion. Fel Cristnogion, mae Iesu'n dweud wrthym mai'r unig ffordd i ymateb i'r trugaredd yr ydym wedi ei dderbyn gan Dduw ydy trwy fod yn drugarog at eraill. Beth am chwilio am gyfleoedd i fod yn drugarog tuag at eraill yr wythnos hon?

Ond, fel yn achos pob gwynfyd, nid yw Iesu yn gorffen y gwynfyd yn y fan hon. Mae'n mynd ymlaen gan ychwanegu cymal arall: 'Gwyn eu byd y rhai trugarog, oherwydd cânt hwy dderbyn trugaredd'.

Beth mae Iesu yn ei olygu trwy ddweud hyn? Ydy Iesu'n datgan y bydd pobl yn derbyn trugaredd Duw yn wobwr am fod yn drugarog? Yn ddi-os, nid dyma beth mae Iesu'n ei ddweud yma. Wedi'r cyfan, nid yw trugaredd Duw yn rhywbeth y gallem ei ennill na'i haeddu drwy ein gweithredoedd. Mae'n bwysig cofio gyda phwy mae Iesu'n siarad wrth iddo lefaru'r geiriau hyn. Nid yw'n siarad â'r dorf yn gyffredinol, ond â'i ddisgyblion yn benodol. Hynny yw, mae Iesu'n siarad â phobl sydd eisoes wedi derbyn trugaredd Duw, pobl sydd eisoes wedi credu yn Iesu a derbyn maddeuant Duw yn rhodd ganddo.



Ond y cwestiwn mawr i'w ofyn yw: beth sy'n dangos – beth sy'n profi – fod rhywun go iawn wedi derbyn trugaredd a maddeuant Duw? Wel, yr hyn sy'n profi fod rhywun yn wirioneddol wedi derbyn trugaredd Duw ydy ei bod hi neu ei fod ef nawr yn byw bywyd llawn trugaredd. Neu, a dweud yr un peth mewn geiriau eraill, y ffordd orau o ddangos fod Duw wedi trugarhau wrthym ydy drwy drugarhau wrth eraill yn ein bywydau ni ein hunain.

Dyma beth mae Iesu yn ei olygu yn adnod 7: 'Gwyn eu byd y rhai trugarog'. Hynny yw, gwyn eu byd y rhai sy'n gyntaf wedi derbyn trugaredd Duw a'r rhai sy'n awr yn dangos eu bod nhw wedi ei dderbyn trwy fod yn drugarog at eraill.

Pam mae'r bobl hyn yn 'wyn eu byd'? Wel, yn syml 'oherwydd cânt hwy dderbyn trugaredd' – nid fel gwobr, ond fel rhodd. Dyma'r bobl sydd wedi derbyn trugaredd Duw yn y gorffennol. Dyma'r bobl sydd yn profi trugaredd Duw yn y presennol. A dyma'n wir y bobl y bydd Duw yn parhau i'w trin yn ôl ei drugaredd am byth bythoedd.

Cwestiynau i feddwl amdanynt:

- Beth mae bod yn 'drugarog' yn ei olygu?
- Pam ein bod ni'n ei ffeindio hi'n anodd bod yn drugarog?
- Sut mae Duw wedi dangos ei drugaredd tuag atom ni?
- Sut y gallem ni fod yn drugarog tuag at eraill?

Gwilym Tudur



Caniadaeth y Cysegr

Sul, 4 Medi, am 7:30yb a 4:30yp

Huw Foulkes yn trafod sut mae rhai o'n corau'n cyfrannu tuag at ein traddodiad emynyddol

Sul, 4 Medi, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Evan Morgan, Caerdydd, ar drothwy Cymanfa Gyffredinol EBC

Ffydd a Diwylliant

Chwarae mig â duw

'Dydy duw ddim yn lecio gwneud syms,' meddai Esyllt Maelor yn un o [gerddi'r Goron](#) eleni. Yn yr un modd mae ceisio ymateb i gelfyddyd fawr mewn rhyddiaith noeth yn anorfod yn mynd i fod yn brofiad annigonol iawn.

Mae'r cerddi'n ddiemwntau fydd yn taflu eu lliw i bob cyfeiriad ac yn mynnu sawl darlleniad gwahanol, yn dibynnu ar gyfeiriad y golau a thro'r llygad.

Ond gan mai yma ydan ni ar dudalennau *Cenn@d*, dwi am gynnig un math o ddehongliad annigonol gan fentro dweud bod yma faes llafur i sawl cymuned sydd awydd archwilio'u fydd.

Mae cyd-destun uniongyrchol y cerddi yn ymwneud â phrofedigaeth fawr. Ond hyd yn oed wrth drafod y brofedigaeth honno mae'r bardd yn trafod deuoliaeth: fod be fyddai rhai'n ei alw'n chwalfa hefyd wedi bod yn atgyfnerthiad. Dyna'r cysur, dyna'r gwres yn y cerddi: nad ydy ei mab wedi ei gollu am ei fod o yno'n ei hannog i ysgrifennu.

Ond mae yna is-destun amlwg hefyd. Mae teitlau'r cerddi yn awgrymu y dyld eu darllen mewn cyd-destun crefyddol/Gristnogol.

Pan fo Cristion yn wynebu chwalfa, mae'n anorfod bod o leiaf ddau beth yn digwydd. Mae'n rhaid dygymod ag effaith uniongyrchol y chwalfa ac mae'n rhaid chwilio am ble mae duw/Duw yng nghanol y chwalfa honno. Ydy o wedi peidio â bod, wedi diflannu, yn chwarae mig, neu, i rai efallai, yno 'i ddal y pwysau' i gyd', chwedl Eben Fardd. Ac i rai ohonom mae'r ddau gwestiwn yn mynd yn gwlwm digon blêr: mae hyn wedi digwydd; ydy duw wedi cefnu arna i? Ydw i'n cefnu ar dduw? Os nad ydw i'n cefnu, be ydw i'n ddisgwyl ohono fo; be mae o yn ddisgwyl ohona i? Bron nad ydy hi'n sefyllfa o chwarae mig rhwng tri: chi, y sawl sy wedi gadael, a duw.

Chwarae mig y mae'r bardd yn y gerdd gyntaf. Ynndi, o ystyried y cyd-destun uniongyrchol, mae un o linellau mwyaf cofiadwy'r



Llun: Cymru Fyw

casgliad. Mae 'clywed clec asgwrn brigyn' wedi ei serio ar fy nghof fel 'mae marc y gwaed ar y mwyar a'r cyll' Euros Bowen. Mor syml. Mor ysgytwol.

Ac yma, i mi, mae'r adlais cyntaf o R. S. Thomas a'i gerddi mawr yn chwilio am y Duw hwnnw sy'n cuddio rhagddo. Mae'r bardd yn sôn am '[D]diflannu./ A finnau o fewn cyrraedd'. A'r neges sy mor berthnasol i gymaint ohonon ni: 'A'r hyn sy'n rhyfedd, dw i'n dal i chwarae'r gêm.' Er gwaethaf popeth, dwi'n dal i chwilio.

Ac nid RS yw'r unig fardd Cristnogol mawr a adleisir. Dyna i chi'r gerdd 'gras': '“Ti'n lwcus. Byw lle rwy'ti.”/ Os ti'n dweud.' Mae'n byw ynghanol cyfoeth o brydferthwch, nid nepell o Lwybr y Pererinion. Ond wrth gloi mae'n mynnu, 'Ond fan hyn ydw i, yn fy slipars. [Nid fy sgidiau cerdded, sylwer.] / Mond dau gae i fwrdd.' A'r cyfeiriad at 'Mewn Dau Gae', Waldo Williams, y gerdd fawr sy'n sôn am 'holi'n hir yn y tir tywyll, / O b'le deuai, yr un a fu erioed?' Ond ei bod hi ddau gae i fwrdd.

Arwel Rocet Jones

(Parhad y tro nesaf)

Gwasanaeth Coffa Nia Rhosier

(1933–2022)

Llywydd Anrhydeddus
Cymdeithas y Cymod
(2010–2022)

yn Hen Gapel John Hughes,
Pontrobert

Sadwrn, 10 Medi 2022, 2.00 pm

Teyrngedau i Nia gan:

Nest Ceris Jones (chwaer)

Beryl Vaughan

R. Alun Evans

Robin Gwyndaf

Croeso cynnes i bawb; darperir
lluniaeth ysgafn i ddilyn

Bydd cyfle i roi cyfraniad er cof am
Nia tuag at yr Hen Gapel
(yn ôl ei dymuniad)

MUDIAD Y CHWIORYDD, UNDEB BEDYDDWYR CYMRU

Cyfarfodydd Blynyddol yn
Y Tabernacl, Caerdydd
Dydd Mercher, 14 Medi 2022
2.00 a 5.30 o'r gloch

THEMA:
MERCHED YN BENNAF

Llywyddion:
Eleri Lloyd Jones a Ruth Davies

Darperir te rhwng y ddwy oedfa am £5.
Tocynnau ar gael gan Ruth Davies,
65 Windway Road,
Caerdydd, CF5 1AG
(029 2221 1407)
billd.d2@tiscali.co.uk

Sieciau'n daladwy i
Tabernacl Eglwys y Bedyddwyr
neu drwy drosglwyddiad banc
Côd Didoli 08-92-99
Rhif Cyfrif 67237146

(Amgawch amlen hunangyfeiriad a
stamp os gwelwch yn dda)

CROESO CYNNES I BAWB

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Bod yn ddisgybl

Emyn 314: 'Enynnaist ynof dân'

Darlenniad: Salm 1

Gweddi

Arglwydd, cadw ni rhag bod fel yr us sy'n cael ei chwalu gan awelon. Cadw ni i rodio yng nghwmpeini dy fab, Iesu Grist, i sefyll gyda thi, i eistedd a chael ein cyfarwyddo yn dy ffyrdd. Goleua lygaid ein deall drwy dy Ysbryd Glân fel y medrwn rodio yn dy ffyrdd. Amen.

Luc 14:25-33 – Cost bod yn ddisgybl

Er i ni wingo fel llysywen ar fachyn wrth wrando ar ei eiriau, does dim ffordd o osgoi'r ffaith fod geiriau Iesu'n medru bod yn llym a heriol. Hyfryd gennym yw meddwl ei fod yn raslon ac yn ein gwahodd ato'i hun pan fôm yn llwythog ac yn flinedig. Llai cyfforddus yw ei alwad i'w ddewis fel ein hathro, ein patrwm, ein Harglwydd. Ac fe fyddai'n well gennym pe na byddai brenin ein hiachawdwriaeth wedi ein gwahodd i ddod ato ac i farw!

Dewisiadau ffydd – adn. 26-7

Tipyn o sioc i ni, bob un, yw fod Iesu yn ein gwahodd i wneud penderfyniad sydd ar yr olwg gyntaf yn gwbl *negyddol*. Mae'n gofyn i ni ymwadu â phopeth arall: ein hanwyliaid a'n bywyd ein hunain hyd yn oed, er mwyn ei ganlyn. Ochr *gadarnhaol* dewis ufuddhau i'w wahoddiad a'i orchymyn (ac y mae gennym y dewis o'i dderbyn neu ei wrthod) yw ein bod yn cael dewis dilyn yr Arglwydd Iesu Grist. Mae'n ddewis a wneir gerbron y byd; mae'n ddewis cyhoeddus i'w ganlyn ar hyd llwybr unffordd y groes, costied a gostio, i ben draw'r daith.

Mae adnabod Duw yn Iesu Grist yn ei hanfod yn golygu ein bod yn dod wyneb yn wyneb â'r unig un sydd â'r hawl i ddisgwyl ymateb o'r fath gennym. Dyma Feseia Duw. Dyma Fab y Dyn, i'r hwn y mae'r deyrnas, a'r nerth, a'r gogoniant yn eiddo iddo, yn oes oesoedd. Dyma waredwr a ddewisodd ddiosg coron ei anrhydedd i gerdded llwybr unig y groes. Yn ei ddarostyngiad cawsom ein cymodi â Duw. Dyma goncwerwr ar angau a'r bedd, ac ef a'n galwodd i fod yn effro, yn weithgar ac yn barod i'w groesawu pan ddeuai.

A'r Arglwydd Iesu Grist yw'r Arglwydd a ddewisodd byd euog olchi eu dwylo o'i

waed a'i groeshoelio. Ymaith â brenin y brenhinoedd yw ein cri o hyd. Wedi'r cyfan, mae ei ras yn terfysgu ein calonnau, ei eiriau'n troi'r byrddau crefyddol, a'i berson gogoneddus yn chwalu disgwyliaid bydol. Rywsut, mae 'dod at Iesu', credu ynddo, edifarhau ac ymddiried yn ei addewidion yn newid gorwelion ein disgwyliaid i'r fath raddau fel na allwn ond ymwadu â phopeth a feddwn, ac ymwrthod â phopeth sydd gennym er ei fwyn.

Cyfri'r gost o'i ganlyn – adn. 28-9

Yn ail ran ei her mae Iesu'n mynnu ein bod yn mesur y gost o'i ganlyn wrth i ni fwrw ein hymddiriedaeth arno, wrth i ni edifarhau a chredu ynddo. Mae fel rhywun sydd am adeiladu tŷ swanc. Cyn gosod y sylfaen, mae chwilio am gynlluniau, mae derbyn dyfynbrisiau, mae ystyried yr heriau a chyfrif y gost i gyd, gan sicrhau bod adnoddau digonol gennym i gwrdd ag unrhyw drafferthion annisgwyl. Ffolineb fyddai dechrau adeiladu heb baratoi'n ddigonol.

Ystyried y gost o beidio â'i ganlyn – adn. 31-2

Onid doeth i chwyldröwr neu derfysgwr â byddin fechan fyddai mesur a all ei ddilynwyr orchfygu byddin gryfach a mwy niferus? Doethineb fyddai chwilio am amodau heddwch cyn wynebu'r fyddin gryfach ar faes y gad.

Mae Iesu, y brenin, Arglwydd a meistr, wedi dod i sefydlu ei deyrnas. Mae heriau a chost o'i ddilyn. Ond doethach o lawer fyddai ystyried y gost o filwrio yn erbyn yr hwn na all holl luoedd Hades ei wrthsefyll!

Gwerthuso'r aberth – adn. 33

Beth bynnag yw ein barn am briodoldeb rhyfela, ni all unrhyw un ohonom beidio ag edmygu dewrder milwyr Wcráin wrth iddynt wynebu lluoedd Rwsia yn Mariupol. Dychmygwch gadfridog yn y twneli o dan waith dur Azovstal yn siarad â'i filwyr:

'Mae byddin Rwsia yn ein pledu â thaflegrau. Mae eu nerth yn fwy na ni. Maen nhw'n ceisio ein rhwystro rhag dianc ac maen nhw am ein difa'n llwyr. Os ydych am adael ac arwain y gwragedd a'r plant i ddiogelwch, rŵan ydy'r amser i wneud hynny.'

'Os ydych chi'n dewis aros, alla i ddim addo hawddfyd i chi gan y bydd brwydr fawr o'ch blaenau. Fe fydd llawer ohonom yn cael ein hanafu, rhai'n ddifrifol. Bydd nifer ohonom yn cael ein lladd. Fe fydd yn costio'n ddrud.'

'Os llwyddwn ni i wrthsefyll a rhwystro'r Rwsiaid, hyd yn oed am gyfnod byr, rhag meddiannu'r ddinas yn llwyr, fe all ein cyd-wladwyr adeiladu amddiffynfeydd i ddiogelu'r wlad a'u gwrthsefyll. Bydd bob dydd yr ydym yn llwyddo i atal y lluoedd rhag ein goresgyn yn cynnig gobai'th i'r wlad, i'ch teuluoedd, ac i ddyfodol rhydd eich plant.'

'Yn awr, dewiswch. Dewiswch gyfri'r gost. Dewiswch gefnu ar eich teulu, eich câr a'ch cydnabod, nid am eich bod yn eu casáu, ond am eich bod yn eu caru, ac am weld sefydlu teyrnas rydd Wcráin. Cyfrifwch y gost. Heddiw. Oherwydd does dim troi'n ôl.'

Rhyw her debyg sydd yng ngeiriau Iesu: 'Mae yna frenin nad yw'n frenin mewn gwirionedd am ddifa'r byd. Mae Teyrnas Dduw wedi dod. Mae rhwystrau a gwrthwynebwyr am ei threchgu ac am rwystro'r Arglwydd. Yn awr, er mwyn y deyrnas yr ydych yn gweddio am ei ddyfodiad, y deyrnas sydd wedi cael ei sefydlu, y deyrnas sy'n dod, bydd yn rhaid i chi, wrth fy nghanlyn i, ymwrthod â'ch holl feddiannau er mwyn bod yn rhan o'r deyrnas sy'n disgwyl ei chyflawniad.'

Nid yw Iesu'n gofyn am gymwynas, ac nid yw'n gofyn am gyfraniad gennym. Nid yw'n gofyn i ni wirfoddoli pan fydd amser gennym, neu os bydd hi'n gyfleus gennym. Talwyd pris ein rhyddid a phris sefydlu'r deyrnas mewn ymdrech, chwys, gwaed a buddugoliaeth. Yn awr, fe'n gelwir ninnau i ganlyn yr hwn a'n prynodd, sy'n deilwng o bob awr o'n hoes, heb gyfrif y gost.

Gweddi

Arglwydd, mor arswydus o real yw dy eiriau. Caniatâ i ninnau ddewis y rhan orau na chaiff ei dwyn oddi wrthym. Caniatâ i ni glywed dy alwad ddwys, dy wahoddiad gasol. Caniatâ i ninnau fyw bob dydd i'th glod drwy Iesu Grist. Amen.

Emyn 616: 'Mae'r gelyn yn ei gryfder'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | hww@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)